Neges i rieni/gwarchodwyr disgyblion cynradd Gwynedd

Annwyl riant/gwarchodwr

Ymddiheuriadau am y neges byr-rybudd. Fodd bynnag, yn sgil datblygiadau diweddar iawn sydd yn golygu nad ydy sefyllfa staffio ysgolion yn glir, **mae'r sir yn cynghori ysgolion cynradd i symud at fodel o ddarparu dysgu o bell tan ddiwedd yr wythnos hon (8 Ionawr, 2021).** Felly ni fydd disgyblion ysgolion cynradd yn mynychu'r ysgol am weddill yr wythnos.

Bydd plant gweithwyr allweddol a phlant bregus yn dal i allu mynychu'r ysgol.

Cymerwyd y penderfyniad yn dilyn ymgynghori gyda phenaethiaid ysgolion cynradd ac arbennig Gwynedd ac er mwyn rhoi eglurder i chi fel y gallwch gynllunio rŵan, ac osgoi gorfod gwneud newidiadau i drefniadau ar fyr-rybudd yn ystod gweddill yr wythnos.

Bydd y sefyllfa yn cael ei hadolygu'n gyson.

Yn gywir

Garem Jackson

.....

A message to parents/guardians of Gwynedd primary pupils

Dear parent/guardian

Apologies for the short notice. However, due to very recent developments which mean that the staffing position of schools is unclear, **the county is advising primary schools to move to a model of distance learning provision until the end of this week (8 January, 2021)**. Primary school pupils will therefore not attend school for the rest of the week.

The children of key workers and vulnerable children will still be able to attend school.

This decision was taken following consultation with Gwynedd primary and special school head teachers and in order to give clarity so you can plan now, and avoid having to make changes to arrangements at short notice during the rest of the week.

The situation will be kept under review.

Yours sincerely

Garem Jackson